Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned Talyllychau yn Ysgol Gynradd Gymunedol Talyllychau ddydd Mawrth 5 Tachwedd 2019 am 7.30pm.
Roedd yr aelodau canlynol yn bresennol: Janine Roberts (Cadeirydd), Marged Bowen a John Williams. Y Clerc Jane Morgan a Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu Donovan Kerr (tan 7.50 pm).
Ymddiheuriadau: Sarah Walters, Rhys Williams, Eifion Roberts a'r Cynghorydd Sir Joseph Davies.
Roedd Llythyr Ymddiswyddo o Gyngor Cymuned Talyllychau wedi dod i law gan Nigel Lovatt.
Nodwyd bod pawb yn siomedig o gael y llythyr hwnnw. Cytunwyd y dylid anfon llythyr cydnabod at Nigel yn diolch iddo am fod yn aelod ffyddlon a chefnogol yn ystod ei gyfnod yn Gynghorydd Cymuned. Y Clerc i roi gwybod i Wasanaethau Etholiadol Cyngor Sir Caerfyrddin.
Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gywir.
Materion sy'n codi.
Datganiad o'r Balans ar 28.10.2019 oedd £3,270.35. Gwiriwyd gan Janine Roberts.
Cytunwyd y byddai'r Clerc yn cysylltu â Mr Edgecombe, Cyngor Sir Caerfyrddin, ynghylch y toiledau cludadwy.
Roedd Rheoliadau newydd y Fynwent wedi dod i law. Cytunwyd y byddai dau gopi yn cael ei roi i'r Eglwys.
Byddai copi yn cael ei anfon ymlaen at bob Cynghorydd a'i roi ar wefan y Gymuned.
Cytunwyd i dalu'r canlynol:
J. Morgan, Clerc, Cyflog: £152.46.
Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi: £38.20.
D.L. Williams, clo a chadwyn: £17.20.
Torch Apêl y Pabi. Cytunwyd i roi Rhodd gwerth £30.00. Cytunwyd y byddai Janine Roberts yn gosod y dorch yn ystod Gwasanaeth y Cofio yn Eglwys Sant Mihangel, a hynny ar ran y Cyngor Cymuned.
Gohebiaeth.
Roedd llythyrau diolch wedi dod i law gan CFFI Dyffryn Cothi a CFFI Llangadog.
Cafodd yr ohebiaeth ganlynol ei dosbarthu a'i thrafod.
Neges e-bost gan Ganolfan y Byddar Llanelli.
Apêl Nadolig Cyngor Sir Caerfyrddin.
Apêl Cadeirydd Cyngor Sir Caerfyrddin 2019-20.
Gwasanaethau Gwybodaeth a Chymorth Canser.
Y Rheoleiddiwr Pensiynau.
Clerks & Councils Direct.
Cynllunio.
Cais E/39733. Rhyddhau Cytundeb Adran 106. Adeilad yng Nghoed y Wiwer, Talyllychau, ar gyfer Graham Heath. Ni wnaed unrhyw sylwadau.
Nid oedd unrhyw fusnes arall a daeth y cyfarfod i ben tua 9.00pm. Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Fawrth, 3 Rhagfyr 2019, am 7.30pm.